Cynhadledd Arbennig 2019

VAWDASV Cylchlythyr Gwent

# Ysbrydoli am newid

**Ar 6 Chwefror, ymunodd tua 150 o weithwyr proffesiynol o bob rhan o Went a Chymru ehangach â ni ar gyfer ein hail gynhadledd flynyddol.**

Roedd y gynhadledd eleni, ‘ ysbrydoli er mwyn newid ‘, yn canolbwyntio ar drais rhywiol a cham-fanteisio. Ar ôl araith agoriadol gan y Cynghorydd Debbie Wilcox, daeth Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Dirprwy Weinidog Jane Hutt i siarad i bwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.






Fe wnaeth ein prif siaradwr cyntaf, Fiona Broadfoot, ddechrau’r diwrnod gyda’i chyfrif emosiynol ac ysbrydoledig o gael ei cham-fanteisio gan y diwydiant rhyw.

Aeth Fiona â’r gynulleidfa ar daith emosiynol, wrth iddi rannu ei phrofiadau mewn ffordd onest ac agored. Buom yn ddigon lwcus i glywed gan Fiona ychydig o weithiau drwy’r dydd, gan iddi hefyd arwain dwy sesiwn weithdy am ei phroject Build a Girl. Mae hyn yn darparu amgylchedd diogel a therapiwtig i ferched a menywod ifanc ‘greu hunan unigryw’ drwy godi dyheadau a hunan-barch. Daeth Dr Emma Williamson i gloi siaradwyr y bore, gan roi manylion canlyniadau ymchwil a gynhaliwyd gan yr ysgol ar gyfer Astudiaethau Polisi ym mhrifysgol Bryste. Mae hwn yn ddarn pwysig o waith ymchwil sy’n edrych ar ‘drais, anghydraddoldeb a’r ymateb cyfiawnder troseddol’ ac, yn sicr, rhoddodd rhywbeth i’r bobl yn yr ystafell gnoi cil drosto. Cyn ac ar ôl cinio, cafodd y cynrychiolwyr gyfle i ddewis o blith saith gweithdy llawn gwybodaeth a gynhaliwyd o amgylch lleoliad gwych Canolfan Christchurch, Casnewydd. Yn ogystal â sesiynau Build a Girl Fiona, roedd gweithdai’n canolbwyntio ar feysydd megis amrywiaeth, ymyriadau gan dramgwyddwyr, cyfiawnder o safbwynt goroeswr, ymdrin â datgeliadau, gweithio gyda thrawma a’r Pecyn Cymorth Adfer Wedi Trais Rhywiol.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr holl weithdai, a oedd o ganlyniad i'r asiantaethau a'r unigolion a hwylusodd y rhain yn ystod y dydd. Roedd amser cinio yn rhoi cyfle i rwydweithio ac i ymweld â stondinau a gefnogwyd yn garedig gan asiantaethau a chynrychiolwyr o'r sector. Roedd hyn yn ychwanegu gwerth arbennig i'r diwrnod. Diolch i bawb a gyfrannodd at wneud yr adran hon yn rhan mor ddefnyddiol o'r gynhadledd. Yn y prynhawn, dechreuodd y prif siaradwyr gyda Debbie Rogers, Dirprwy Brif Erlynydd y Goron ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cymru. Rhoddodd Debbie adroddiad angerddol ar rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron a sut y gall yr holl asiantaethau weithio gyda'i gilydd i gefnogi'r unigolion hynny sy'n dymuno dewis y llwybr Cyfiawnder Troseddol. Dilynwyd hyn gan gyflwyniad angerddol gan Dr Helen Mills ar waith Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol St Mary's ym Manceinion. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau ardderchog o arfer gorau a gwerth gwasanaethau integredig. Roedd Philomena Jordon-Patrikios yn ddigon caredig i gau'r diwrnod gyda sesiwn oedd ei hangen yn fawr a oedd yn canolbwyntio ar wydnwch, gyda sesiwn ymarferol a oedd yn ddefnyddiol i lawer o bobl. Hoffem ddod â'r rhifyn hwn o'r cylchlythyr i ben drwy ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol a helpodd i'w wneud yn gymaint o lwyddiant:

- Tîm Canolfan Christchurch am gynnal
- Sally Jenkins am arwain y dydd
- y Cynghorydd Debbie Wilcox
- Jane Hutt AC
- Fiona Broadfoot
- Dr Emma Williamson
- Deborah Rogers
- Dr Helen Mills
- Philomena Jordon-Patrikios
- Nick Lewis
- Dr Jayne Williams
- Madeline Smyth
- Sally Howells
- Debbie Woodruffe
- Nicola Fitzpatrick
- BAWSO
- Connect Gwent
- Umbaraella Cymru
- Cymorth i Fenywod Cyfannol
- Cymorth i Fenywod Casnewydd
- Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent
- Tîm Pobl ar Goll Gwent
- Hafan Cymru
- New Pathways
- Llamau
- The Truth Project




- Phoenix Domestic Abuse Services
- Cymorth i Ferched Cymru
- The Go-Girls a The Brothers
- Free From Fear Housing Project
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Powys
- Cefnogi Pobl Gwent
- Hyb ACE, Cymru
- Pawb a gymerodd amser o'u diwrnod i fynychu a chefnogi'r diwrnod.

